



CABINET

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 19EG GORFFENNAF 2017 AM 2.00 P.M.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd D.V. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C.J. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), P.A. Marsden (Addysg a Chyflawniad), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) a Mrs E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), C. Harrhy (Cyfarwyddwraig Corfforaethol - Cymunedau) a N. Scammell (Cyfarwyddwraig Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro a Swyddog Adran 151).

Hefyd yn Bresennol:

R. Hartshorn (Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd), S. Couzens (Prif Swyddog Tai), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Gwasanaethau Plant), C. Forbes-Thompson (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro), A. Dallimore (Arweinydd Tîm - Adnewyddu Trefol a Chadwraeth) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau dros absenoldeb gan Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd) a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol).

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

3. CABINET – 5ED GORFFENNAF 2017

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Gorffennaf 2017 (rhifau cofnod. 1 - 8) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

4. MONITRO RISG CORFFORAETHOL

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Cabinet ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn unol â Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor.

Roedd diweddariad y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn gofyn am farn a chymeradwyaeth y Cabinet cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 13eg Medi 2017.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r rôl hanfodol y mae'r Aelodau yn eu chwarae wrth werthuso trefniadau rheoli risg y cyngor ac yn benodol mewn deall sut mae'r cyngor yn nodi, rheoli, a lle mae hynny'n bosibl, lliniaru neu ddileu risg. Mae Rheoli Risg yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau'r cyngor yn effeithiol.

O dan Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor, mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn monitro Risgiau Corfforaethol y Cyngor ac mae gan y Pwyllgor Archwilio'r rôl o adolygu a herio'r gofrestr risgiau a'r cynlluniau gweithredu canlyniadol ar gyfer risgiau strategol a chorfforaethol allweddol y cyngor. Mae rôl y Cabinet wedi'i ffurfioli ac yn symud ymlaen. Bydd y Cabinet yn derbyn adroddiadau cynnydd bob chwe mis am y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Derbyniwyd y Gofrestr Risg ar ôl yr adolygiad gan y Tîm Rheoli Corfforaethol ar 22ain Mehefin 2017 a chrynhair y newidiadau a wnaed yn y tabl isod.

Nododd y Cabinet fod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn 'ddogfen fyw' a bod newidiadau yn cael eu cyflwyno ym mhob adolygiad wrth i risgiau newydd gael eu cyflwyno, mae risgiau presennol yn cael eu cau neu fod eu hasesiad RAG (Coch, Melyn, Gwyrdd) yn cael ei ddiweddarau. Nododd yr Aelodau fod rhai o'r risgiau a nodwyd yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cynnwys Cynllunio Ariannol Tymor Canolig, Cyrhaeddiad Ysgolion, Cynaliadwyedd Darpariaeth Gwasanaeth trwy Gyllido Grant, Rhesymoli Ysgolion Uwchradd, Rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), Parhad y Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Chyrhaeddiad Targed, Breuder y Farchnad Gofal Cymdeithasol, Proffil Effeithiau Hinsawdd Leol, Ymadael o'r UE, Cynllun Datblygu Lleol, Diwygio Llywodraeth Leol, Cytundeb Dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Rheoli Asedau.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog i gymeradwyo'r Gofrestr Risg Corfforaethol cyn ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio i'w hystyried.

5. CAIS AM ADNODDAU YCHWANEGOL MEWN YMATEB I ALW CYNYDDOL O FEWN GWASANAETHAU PLANT

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth gyd-destunol i'r Cabinet i esbonio'r cynnydd mewn pwysau llwyth gwaith ar draws Timau Ardal Gwasanaethau Plant, y Tîm Maethu a'r Tîm Cyfreithiol a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cabinet i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y gwasanaeth i ariannu swyddi ychwanegol ar sail amser.

Amlinellodd yr adroddiad y pwysau cyfredol ar y llwyth gwaith, eglurodd y pwysau sy'n ymwneud â'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a darparodd y dystiolaeth i gefnogi'r cynnig i recriwtio'r staff ychwanegol canlynol i gefnogi Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Cyfreithiol:

- 2 Weithiwr Cymdeithasol Cymwys - Timau Ardal

- 2 Weithiwr Cymdeithasol Cymwys - Tîm Maethu
- 1 Gweinyddwr Gradd 5 - Tîm Cyfreithiol

Ceisiodd yr Aelodau gael sicrwydd y byddai'r gofyn ychwanegol am staff yn ddigonol i ateb y galw cynyddol ar y gwasanaeth ac a oedd Swyddogion yn hyderus y gellid llenwi'r swyddi. Amlinellodd y swyddogion nad yw hyn yn glir ar hyn o bryd, mae gobaith y bydd y galw yn cyrraedd llwyfandir, fodd bynnag, mae nifer o Awdurdodau Lleol eraill mewn sefyllfa debyg. Nodwyd bod gan CBS Caerffili enw da, o ran darparu Gwasanaeth ac o fewn y System Llys, felly, mae Swyddogion yn hyderus y byddai swyddi'n cael eu llenwi.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion i nodi'r wybodaeth ynddo ac i gymeradwyo'r defnydd o Gronfeydd Wrth Gefn y Gwasanaeth i ariannu'r swyddi ychwanegol am gyfnod cychwynnol o 12 mis o ddyddiad yr apwyntiad am uchafswm cost o £205,917.

6. ADOLYGIAD O DALIADAU'R GWASANAETH TAI

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan Grŵp Gorchwyl Cartrefi Caerffili (Y Grŵp Gorchwyl) ar 6ed o Orffennaf 2017 a'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 19eg o Orffennaf 2017, yn gofyn am farn y Grŵp Gorchwyl a'r Pwyllgor Craffu ar yr adolygiad a sut y cesglir taliadau gwasanaeth o fewn Tai Gwarchod a'r angen i adolygu taliadau gwasanaeth ar gyfer llety Anghenion Cyffredinol, a chefnogwyd hyn yn unfrydol.

Gosododd Deddf Tai (Cymru) 2014 ddyletswydd newydd i awdurdodau lleol i gydymffurfio â safonau ar gyfer ansawdd tai, rhenti a thaliadau gwasanaeth. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol adolygu'r modd y mae taliadau am wasanaethau yn cael eu hawlio i sicrhau mai dim ond am wasanaethau y maen nhw'n eu derbyn y caiff tenantiaid eu codi. Ni ddarparwyd canllawiau manwl ond mae'n ofynnol bod taliadau gwasanaeth yn adlewyrchu'r costau a wneir yn deg ac yn dryloyw gyda dadansoddiad manwl a ddarperir i denantiaid fel y gallant weld beth maen nhw'n talu amdano.

Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn adennill ei gostau am wasanaethau y mae'n ei ddarparu i denantiaid mewn cynlluniau tai gwarchod drwy rannu costau'r gwasanaethau hyn rhwng yr holl denantiaid o fewn y cynlluniau. Mae hyn yn groes i Bolisi Llywodraeth Cymru. Cynigir bod yr Awdurdod, yn y dyfodol, yn adennill costau gwirioneddol darparu gwasanaethau yn eu cynllun unigol, yn seiliedig ar y gost a gyfrifwyd am ddarparu'r gwasanaethau yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

Nododd y Cabinet yr ymholiadau a godwyd gan y Grŵp Gorchwyl mewn perthynas ag effaith ar denantiaid a'r gefnogaeth sydd ar gael, fforddiadwyedd a dulliau cyfathrebu i hysbysu tenantiaid ac roeddent yn fodlon â'r sicrwydd a ddarparwyd gan y Swyddogion.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog: -

- i gymeradwyo'r cynnig i godi tâl am y costau gwirioneddol o ddarparu gwasanaethau iddynt fesul cynllun ar denantiaid cynlluniau tai gwarchod;
- i gymeradwyo'r cynnig i gyflwyno trefniadau trosiannol am ddwy flynedd, cyn adolygiad, a chodi taliadau gwasanaeth yn unol â'r polisi rhent yn ystod y cyfnod trosiannol.

7. CYNLLUN ERDF CROESO CYMRU - DIWEDDARIAD AR 'DRIONGL ANTUR' CAMLAS SIR FYNWY AC ABERHONDDU

Darparodd yr adroddiad fanylion i'r Cabinet o'r cynnydd a wnaed ers Ionawr 2016 mewn perthynas â'r cynnig seilwaith cyfalaf Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop - "'Triongl Antur' Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu", a ddatblygwyd fel prosiect rheoli cyrchfannau blaenoriaethol a arweinir yn ranbarthol Gan Croeso Cymru.

Cafodd y cynnig ei ystyried gyntaf a'i gymeradwyo gan y Cabinet ar 20fed Ionawr 2016. Fodd bynnag, mae treigl amser a thrafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a phartneriaid prosiect CBS Torfaen a Croeso Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i adolygu ac ail-ffocysu cwmpas cynigion prosiect gwreiddiol yr Awdurdod ac i ail-edrych ar ddyraniad cyllid cyfatebol y Cyngor i'r prosiect.

Mae Croeso Cymru'n arwain prosiect ranbarthol ar gyfer cyllid ERDF yn dwyn y teitl "Cyrchfan Denu Twristiaeth", sy'n anelu at "... gyflwyno cyfres o brosiectau seilwaith twristiaeth strategol a flaenoriaethir yn ranbarthol a fydd yn helpu i godi ansawdd a chanfyddiad cyrchfannau yng Nghymru ac annog buddsoddiad gan fusnesau a thwf cyflogaeth yn y sector twristiaeth yn y ranbarth".

Mae'r Grŵp Rheoli Cyrchfannau (grŵp ranbarthol gyda chynrychiolaeth o bob un o Awdurdodau Lleol De Cymru) wedi nodi Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu fel un o'r cyrchfannau ranbarthol i'w blaenoriaethu. Yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf mae swyddogion o CBS Caerffili a CBS Torfaen wedi cydweithio i ddatblygu cynnig prosiect addas gyda CBS Torfaen yn gweithredu fel y partner arweiniol. Ystyriwyd a chymeradwywyd y cynnig hwn gan y Cabinet ar 20fed Ionawr 2016. Rhoddwyd cymeradwyaeth yr ERDF i Croeso Cymru ar gyfer ymgyrch ranbarthol ymbarél. Drwy weithio ar y cyd â Croeso Cymru a CBS Torfaen, datblygwyd prosiect ar y cyd gyda chyfanswm costau o tua £4.56m, gydag elfennau ardal Caerffili yn gyfanswm o tua £2.026m.

Mae nodau ac amcanion cyffredinol y prosiect cydweithredol yn parhau fel y nodir yn adroddiad Cabinet Ionawr 2016, h.y. i wella cynnig twristiaeth/hamdden Cwmcarn o fewn y ranbarth a gweithredu gwelliannau seilwaith i'r Gamlas. Fodd bynnag, mae cwmpas y prosiectau y bydd y Cyngor nawr yn ceisio eu gweithredu drwy'r rhaglen gyffredinol wedi newid ac mae cynigion cyllido cyfatebol y Cyngor angen eu hadolygu a'u cadarnhau. Cyflwynwyd cynigion prosiect diwygiedig ar gyfer yr elfennau CBSC a CBST i Croeso Cymru erbyn dyddiad cau'r 5ed o Fai ac mae angen cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer yr elfen CBSC cyn i'r prosiect gael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru, yn enwedig y cwmpas diwygiedig a gofyniad cyllido cyfatebol diweddaraf y prosiect. Amlinellodd yr adroddiad y sefyllfa ariannol bresennol, gan gynnwys newidiadau i'r argaeledd cyllid cyfalaf disgwylidig sydd wedi'i gadarnhau ers Mai 2017.

Yn ogystal â chyflwyno Cynllun Busnes manwl i Croeso Cymru ar gyfer y prosiect cydweithredol "'Triongl Antur' Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu" erbyn y dyddiad cau yn gynnar ym mis Mai, bydd Panel Adfywio LIC, sy'n cynnwys swyddogion LIC gydag arbenigedd technegol, ariannol ac mewn adfywio, yn asesu'r prosiect (nid yw'r dyddiad wedi ei gadarnhau eto) i benderfynu ar y cais am ddyfarniad o Arian Cyfatebol a Dargedir gan Lywodraeth Cymru.

Roedd y goblygiadau ariannol a ddiweddarwyd, fel yr amlinellir yn yr adroddiad, yn cynnwys y cyfraniadau cyllido disgwylidig gan yr ERDF, Arian Cyfatebol a Dargedir Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, gan gynnwys newidiadau diweddar i ddyraniadau cyfalaf craidd y Cyngor, a amlygwyd a'u cadarnhau yn ystod y broses ymgynghori.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog: -

- (i) i gymeradwyo £542 mil o'r gyllideb Peirianeg a glustnodwyd yn arwyddol ar gyfer gwaith gwella'r gamlas yn ystod 2017/18, 2018/19 a 2019/20 fel cyllid cyfatebol ar gyfer y cynnig hwn, ar y sail ei fod yn cael ei ddefnyddio i wneud gwaith adfer camlas sy'n cyd-fynd â'r cais Prosiect Croeso Cymru ehangach;
- (ii) i gymeradwyo'r defnydd o £60 mil o gyllideb cyfalaf craidd Gwasanaethau Cefn Gwlad yn ystod y prosiect 3 mlynedd;
- (iii) i nodi a chymeradwyo'r rhestr ddangosol o Brosiectau Diwygiedig, fel yr amlinellir yn atodiad 1 i'r adroddiad;
- (iv) yn achos newidiadau pellach i gwmpas y prosiectau diwygiedig y cyfeirir atynt yn Atodiad 1, bydd y rhain yn cael eu hystyried o dan y Cynllun Dirprwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr perthnasol mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol.

8. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET.

Roedd yr adroddiad yn ceisio cadarnhad Blaenraglen Waith y Cabinet am gyfnod o Orffennaf 2017 i Ragfyr 2017.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r Blaenraglen Waith arfaethedig ar gyfer adroddiadau Cabinet yn y dyfodol.

Mae Blaenraglen Waith y Cabinet yn cael ei diweddarau yn rheolaidd er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau sy'n cael eu gwneud iddi ers iddi gael ei chytuno ar yr 22ain o Ionawr 2014.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi bod rhai newidiadau ac eitemau ychwanegol wedi'u hychwanegu at y Rhaglen ers cyhoeddi'r adroddiad ac amlygwyd y rhain gan y Swyddog cyflwyno.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, a thrwy nodi'r newidiadau i Flaenraglen Waith y Cabinet a amlinellwyd yn y cyfarfod, i gymeradwyo Blaenraglen Waith y Cabinet.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.45 p.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Medi 2017.

CADEIRYDD